# HWB - Ardal Gwella Busnes Caernarfon:
# CYNLLUN BUSNES TRYDYDD TYMOR 2026 – 2031

Degawd o gynnydd!

**PLEIDLEISIWCH "Ia!"** o 23 Ionawr i 19 Chwefror 2026




CANOL TREF
CAERNARFON
TOWN CENTRE

















# Croeso gan ein Cadeirydd

Annwyl aelodau HWB Caernarfon,

Fel perchennog busnes balch yma yng Nghaernarfon, rwy'n rhannu eich angerdd am ein tref unigryw, ei ddiwylliant, ei dreftadaeth, ei hanes, ei hysbryd cymunedol a'i chynnig amrywiol. Yn fy rôl fel Cadeirydd HWB Caernarfon dros y tair blynedd diwethaf, rwyf wedi gweld y cynnydd a'r newidiadau cadarnhaol sydd wedi caniatáu i'r dref a'i busnesau ffynnu. Mae'r Ardal Gwella Busnes (AGB) yn gweithio'n galed ar ran ei aelodau, gan adeiladu partneriaethau lleol cryfach a chyflawni strategaethau a phrosiectau, yn helpu i sicrhau bod Caernarfon yn cael ei hyrwyddo'n dda ac yn cyrraedd ei lawn botensial.

Mae wedi bod yn her i gael y dref yn ôl ar ei thraed ar ôl COVID 19, ac rydym yn cydnabod nad ydym wedi gwneud popeth yn iawn yn HWB Caernarfon yn ystod yr ail dymor hwn. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo i barhau i wella, i gyflawni ein haddewidion a pharhau i adeiladu ar ein deng mlynedd o gynnydd. Mae llawer yn ystyried Caernarfon fel tref wych sy'n ffynnu. Gyda chefnogaeth ein busnesau sy'n talu lefi, byddai trydydd tymor AGB pum mlynedd o fis Ebrill 2026 yn ein galluogi i barhau i yrru eich blaenoriaethau, gwireddu ystod o brosiectau allweddol, a sicrhau bod Caernarfon yn parhau i fod yn gyrchfan gref a gwydn i fuddsoddi, gweithio, ymweld â hi ac i fyw yma.

Rhwng 23 Ionawr a 19 Chwefror 2026 cynhelir pleidlais lle cewch eich cyfle i bleidleisio am dymor AGB newydd. Mae cryfder ein cymuned fusnes yn golygu bod gennym lais cryfach gyda'n gilydd a gallwn edrych ymlaen at fwy o lwyddiant a rennir. **Bydd pleidlais "Ia" yn golygu y gall ein gwaith da barhau a bydd ein tref yn elwa'n economaidd ac yn gymdeithasol o dros £500,000 o fuddsoddiad o incwm lefi AGB dros y pum mlynedd nesaf, gan sicrhau ffyniant hirdymor Caernarfon.**

**Bydd pleidlais "Na" yn golygu y bydd yr holl brosiectau a gwasanaethau y mae HWB Caernarfon yn eu darparu yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026.** Ni fydd gan unrhyw sefydliad arall y gallu na'r adnoddau i gamu ymlaen a pharhau â'r prosiectau rydych chi wedi'u blaenoriaethu. Efallai na fyddwch bob amser yn sylwi ar y gwaith da rydyn ni'n ei wneud ar eich rhan ... ond byddwch yn sicr yn sylwi os yw'n gorffen!

Mae'r cynllun busnes hwn wedi'i lunio yn dilyn adborth o fisoedd lawer o ymgynghori â busnesau'r dref. Mae'r Bwrdd a minnau yn credu y dylai ei gynnwys atseinio gyda chi – y taliwriaid lefi - ac rydym yn gobeithio y bydd ein cynigion yn cael eu cefnogi gan y busnesau.




**Allwn ni ddim ei wneud hebddoch chi! Pleidleisiwch "Ia" rhwng 23 Ionawr a 19 Chwefror 2026.**

Diolch a Chofion,

*John Stanley Evans*, perchennog Tafarn Y Bachgen Du

Cadeirydd – HWB Caernarfon

## Beth yw AGB?

Mae Ardal Gwella Busnes (AGB) yn fenter a arweinir gan fusnesau a gefnogir gan ddeddfwriaeth y llywodraeth sy'n rhoi'r pŵer i fusnesau godi a gwario arian yn lleol, gan wella ardal fasnachol ddiffiniedig. Maent yn cael eu hariannu trwy lefi orfodol ar fusnesau cymwys o fewn ardal AGB ar ôl pleidlais lwyddiannus.

Mae 347 o Ardaloedd Gwella Busnes yn gweithredu yn y DU ar hyn o bryd. Maent yn hollol annibynnol o'r awdurdodau lleol ac asiantaethau statudol eraill ac yn cyflawni prosiectau ar ben y gwasanaethau sylfaenol a ddarperir ganddynt.

Mae HWB Caernarfon yn cael ei reoli gan fwrdd o gynrychiolwyr busnesau lleol ac fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2016. Mae bellach yn agosáu at ddiwedd ei ail dymor, ac mae'n un o 12 AGB sy'n gweithredu yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn ystod y deng mlynedd diwethaf rydym wedi gweithio gyda chi a'n partneriaid i gyflawni ystod eang o gyflawniadau cadarnhaol i'n tref. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y cynllun busnes hwn.

# Uchafbwyntiau'r Ail Dymor – cipolwg ar gyflawniadau!

## Marchnata a Hyrwyddo

- Ariannu a gweithredu'r Ganolfan Groeso yn Oriel Pendeitsh. Cefnogwyd dros 3,500 o ymwelwyr yn ystod 2024
- Darparu WI-FI am ddim canol tref, gan nodi Caernarfon fel tref 'ddigidol glyfar'. 5,000 o ddefnyddwyr unigryw dros y 12 mis diwethaf
- Cydweithio gyda'r BBC ar stori 'Trefi Ffyniannus' ym mis Mehefin 2025, gan hyrwyddo ein tref a'i chanfyddiad gyda stori newyddion da

### Cymorth a Chyfathrebu Busnes

- Cylchlythyrau rheolaidd ar weithgareddau HWB, cyfleoedd grant, a gwybodaeth ddefnyddiol. Anfonwyd 12 rhifyn dros y 12 mis diwethaf
- Lansio cynlluniau grant amrywiol, gan gynnwys y grant gwella busnes diweddar a'r grant digwyddiadau busnes
- Darparu cyfleoedd hyfforddi am ddim, gan gynnwys Iechyd a Diogelwch, Data WI-FI Patrwm, Makaton

## Gwella apêl weledol y dref

- Gosod baneri lliwgar ar strydoedd canol y dref pob gwanwyn
- Talu 50% o gostau'r coed Nadolig bach pob blwyddyn, a'u gosod uwchben siopau canol y dref
- Trefnu ac ariannu glanhau gwteri cannoedd o adeiladau yng nghanol y dref yn haf 2023

## Digwyddiadau

- Ariannu a rheoli llawer o ddigwyddiadau cyffrous, gan gynnwys Diwrnod Archarwyr cyntaf erioed Caernarfon yn 2023 a Diwrnod y Deinosoriaid yn 2024, ac ein Dathliad 'Dolig blynyddol – llawn hwyl ac yn rhad ac am ddim i deuluoedd allu mwynhau
- Un o brif noddwyr Gŵyl Fwyd Caernarfon, a'n rhoi ar y map, gan ddenu dros 40,000 o ymwelwyr i Gaernarfon ar y diwrnod
- Noddi digwyddiadau allweddol eraill, gan gynnwys Gŵyl Arall, Balchder Caernarfon, gweithgareddau Gariswn y Castell, a llawer mwy

🌟 **PLEIDLEISIWCH Ia!** 🌟 ✨

**i gadw HWB Caernarfon a'r cyfan a wnawn**

# Ail Dymor – Rhifau Allweddol

- **Buddsoddiad o £300,000** i'n themâu allweddol – Yn Falch o Hyrwyddo, Glân, Gwyrdd ac Eco-gyfeillgar, Man Diogel a Cryfach Gyda'n Gilydd
- **£16,000** o gyllid ychwanegol wedi'i sicrhau ar gyfer prosiectau drwy grantiau SPF
- **42,300** o ymwelwyr yng Nghaernarfon ar gyfer Gŵyl Fwyd 2024
- **5,000** o ymwelwyr ychwanegol i Stryd y Llyn yn ystod Diwrnod Archarwyr ym mis Hydref 2023
- **4,000** o ymwelwyr ychwanegol i ganol tref Caernarfon yn ystod Diwrnod y Deinosoriaid 2024
- **3,537** o dwristiaid o 27 gwlad wedi ymweld â'r Ganolfan Groeso yn ystod 2024
- **4,735** o ddilynwyr ar Facebook HWB Caernarfon, wedi cynyddu'n sylweddol dros y 18 mis diwethaf
- **300** o deuluoedd yn cymryd rhan yn ein Helfa Wyau Pasg flynyddol
- **250** o ymgeiswyr i'n cystadleuaeth flynyddol Santes Dwynwen ym mis Ionawr

Bydd y tudalen yma, a'r ddogfen cyfan, yn cael ei gynllunio'n broffesiynol cyn ei yrru allan i'r busnesau ar ddechrau Ionawr 2026.

# Ymgynghoriad Trydydd Tymor

Yn dilyn canlyniadau cadarnhaol arolwg 'meddal' a gynhaliwyd gyda rhai aelod-fusnesau gan ein tîm ym mis Chwefror 2025 i fesur yr awydd am drydydd tymor AGB, roedd Bwrdd Cyfarwyddwyr HWB Caernarfon o'r farn ei bod yn bwysig cyfarwyddo ymgynghorydd annibynnol i arolygu trawstoriad o'n haelodau, gan ddileu unrhyw ragfarn a sicrhau gwrthrychedd. Cymerodd llawer ohonoch rhan mewn arolwg gan *Ymgynghori Lafan* yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2025. Rydym yn diolch i bawb a roddodd eu hamser i fynegi eu syniadau a'u barn, a oedd yn hynod werthfawr ac sydd wedi ein helpu i lunio'r cynllun busnes hon.

Canlyniadau arolwg Chwefror 2025 oedd y byddai 71% o'r busnesau a arolygwyd yn pleidleisio "Ia" i dymor AGB arall.
Yn ystod cyfnod o dair wythnos ym mis Mehefin a Gorffennaf, arolygodd *Ymgynghori Lafan* amrywiaeth o fusnesau sy'n cynnig ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau. Unwaith eto, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol – 77% o blaid rhoi tymor AGB pum mlynedd arall i HWB Caernarfon gyda sgôr graddio o 3.66* allan o 5* am ein cefnogaeth i fusnesau dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn amlwg, mae gennym le i wella, ond roedd yn wych gweld mae'r bleidlais fwyaf poblogaidd oedd 4*.

Yn ogystal ag arolygu busnesau'n uniongyrchol, fe wnaethom hefyd ddarparu pedair sesiwn galw heibio yn Oriel Pendeitsh ym mis Mehefin a Gorffennaf 2025, a chafwyd cyfle i fynegi eich barn yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yng Nghlwb Hwylio Caernarfon ar 9 Gorffennaf. Mae eich ymgysylltiad a'ch adborth mor bwysig, fel ein bod yn parhau i alinio â blaenoriaethau ein haelodau a mynd i'r afael â'ch pryderon.

## Beth arall a ddwedasoch

- Roedd llawer o sylwadau yn cefnogi ymdrechion HWB Caernarfon, gan gydnabod y gwerth ychwanegol i'r dref drwy ddigwyddiadau, grantiau busnes, nawdd lleol, harddu corfforol, a phresenoldeb cydlynydd ymroddedig er gwaethaf adnoddau cyfyngedig.
- Fe wnaethoch chi ddweud bod gwelliant sylweddol wedi bod yng ngweithgareddau ac ymgysylltiad HWB Caernarfon yn ystod ail hanner y tymor presennol. Mae rhai ohonoch yn teimlo bod angen i ni gyfathrebu a chydweithio mwy â'n haelodau.
- Mae'r mwyafrif helaeth ohonoch yn cytuno â phwysigrwydd ein pedair thema a hoffent gynnal y themâu mewn trydydd tymor. Fe wnaethoch chi sgorio 'Man Diogel' fel y flaenoriaeth uchaf, gan bwysleisio pwysigrwydd diogelwch a chreu mannau diogel.
- Hoffech weld mwy yn cael ei wneud i helpu i gadw Caernarfon yn daclus, yn enwedig mewn ardaloedd problematig penodol yng nghanol y dref.

- Dywedodd rhai ohonoch fod angen i ni wneud mwy o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar fusnes a llai o ddigwyddiadau cymunedol.
- Soniodd rhai ohonoch am ehangu capasiti HWB Caernarfon i ddarparu cymorth busnes ychwanegol a chynyddu ei gyrhaeddiad gweithredol, tra eich bod hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfyngiadau cyllidebol a'r heriau o gael dim ond un aelod o staff llawn amser.
- Dywedodd rhai y byddai'n ddefnyddiol pe gallai HWB Caernarfon ddarparu cymorth i fusnesau i wneud ceisiadau am grant.
- Dywedodd llawer ohonoch ein bod ni'n gwneud gwaith da ar hyrwyddo'r dref ac adeiladu ei hunaniaeth gyda'n digwyddiadau a'n nawdd, er bod rhai yn dweud nad oedden nhw wedi gweld ein hymdrechion yn eu rhan nhw o'r dref.

Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth yn fawr ac wedi ymgorffori cymaint â phosibl yn y cynllun busnes hwn. Mae'r prosiectau a'r gwasanaethau y mae HWB Caernarfon yn bwriadu eu darparu yn ei drydydd tymor AGB yn seiliedig ar eich blaenoriaethau! Diolch i bawb am eich mewnbwn.

# Tystebau

*"Fel busnes sy'n gweithio'n agos gyda HWB Caernarfon, rydym yn cefnogi'n llawn y gwaith pwysig maen nhw'n ei wneud i hyrwyddo'r dref a'i chymuned fasnachol. Mae'r sefydliad wedi bod yn llais cryf i fusnesau lleol, yn enwedig trwy eu grantiau bach effeithiol – fel ein grant o £500 ar gyfer arwydd newydd, sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n presenoldeb. Mae HWB yn chwarae rhan hanfodol wrth wthio Caernarfon ymlaen fel lle i fyw, ymweld â hi a gwneud busnes. Yn yr amseroedd heriol hyn, mae angen cefnogaeth barhaus i sicrhau bod y dref yn ffynnu. Edrychwn ymlaen at gydweithio â nhw i greu dyfodol gwell i'r dref a'i busnesau."*
**Aled a Heledd Davies-Jones, 'Castle Gift Shop'**

*"Ar ôl rhedeg busnesau yng Nghaernarfon am y 40 mlynedd diwethaf, ac fel cyn-aelod o'r Siambr Fasnach, hoffwn leisio fy nghefnogaeth i HWB Caernarfon. Mae HWB yn darparu cyswllt hanfodol o gefnogaeth rhwng y gymuned fusnes a Chyngor Gwynedd yn ogystal â helpu i gydlynu ysbryd o gydlyniant a chydweithrediad rhwng y busnesau eu hunain. Mae'r cyllid y mae'n ei*

*ddarparu ar gyfer digwyddiadau, a'r adnoddau y mae'n eu cynhyrchu (e.e. map canol tref, wifi) rwy'n credu eu bod yn hanfodol i gyflwyno'r dref fel canolfan flaengar a llwyddiannus i'r gymuned leol ac ymwelwyr."*
**Sue Kirk, Teithiau Hanesyddol Cymru**

*"Rwyf wedi bod yn berchennog busnes yn nhref Caernarfon ers 1989. Mae dyfodiad HWB wedi bod o gymorth mawr i'r busnesau bach yn y dref sydd wedi dechrau teimlo'r straen o redeg busnes mewn dirywiad economaidd cyn ac ar ôl Covid. Mae'r dref hon yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth yn ogystal â chefnogaeth gan bobl leol o ddydd i ddydd. Fel llawer o fusnesau eraill, rydym wedi derbyn cefnogaeth gan HWB i wella'r tu allan i'n hadeilad. Mae HWB wedi cefnogi'r Ŵyl Fwyd flynyddol sy'n dod â'r cyllid angenrheidiol i'r dref bob mis Mai, yn ogystal â threfnu digwyddiadau eraill drwy gydol y flwyddyn. Yn wahanol i drefi cyfagos eraill, mae HWB wedi sicrhau bod gennym Ganolfan Groeso sy'n adnodd hanfodol i ymwelwyr a phobl leol hefyd.*
*Trwy gydweithio â'r Cyngor a busnesau'r dref, mae HWB yn sicrhau dyfodol i'r dref. Diolch am eich cefnogaeth a'ch gwasanaeth."*
**Carys Owen, Siop Y Ddraig**

*"Mae HWB Caernarfon wedi bod yn un o'r rhai sy'n darparu'r grant mwyaf i Gŵyl Fwyd Caernarfon bob blwyddyn. Mae'r ŵyl yn un o'r prif ddigwyddiadau a gynhelir yng Nghaernarfon ac felly mae'n ddigwyddiad gyda chostau ariannol sylweddol. Mae derbyn cymorth ariannol gan HWB bob blwyddyn yn ein helpu i sicrhau y gallwn barhau i gynnal yr ŵyl ond hefyd yn ein galluogi i sicrhau ein bod yn talu ein costau. Daw'r grant hwn o'r incwm y mae HWB yn ei gasglu gan fusnesau'r dref ac felly mae'n ffordd i fusnesau gyfrannu a chefnogi digwyddiad sy'n denu dros 40,000 o ymwelwyr i'r dref, llawer ohonynt yn aros i fwynhau'r hyn sydd gan y dref i'w gynnig y tu hwnt i oriau'r ŵyl ei hun. Derbyniodd Gŵyl Fwyd Caernarfon y wobr gyntaf drwy Ogledd Cymru fel 'digwyddiad y flwyddyn' cyn mynd ymlaen i'r rownd derfynol drwy Gymru yn y 'Go Tourism Awards'. Mae hyn yn destun balchder i ni gan ein bod yn gallu cynnig digwyddiad o'r fath safon yn ein tref - does dim amheuaeth na allem fod wedi gwneud hynny ein hunain ac mae'r gefnogaeth grant blynyddol gan HWB, ynghyd â chefnogaeth Rheolwr HWB, yn un o'r ffactorau allweddol ar gyfer llwyddiant yr Ŵyl."*
**Mirain Roberts (Ysgrifennydd) a Nici Beech (Cadeirydd), Gŵyl Fwyd Caernarfon**

# Elfennau Allweddol Cynllun Trydydd Tymor AGB 2026 - 2031

Fe wnaethoch chi ddweud wrthym eich bod chi'n cefnogi ein pedair thema bresennol ac yr hoffech i'r rhain barhau, felly byddant yn gwneud hynny!

1. **Yn Falch o Hyrwyddo:** codi proffil Caernarfon, cynyddu nifer a gwariant yr ymwelwyr, o fudd i'n busnesau a'n cymuned.
    - ✓ Parhau i weithredu'r Ganolfan Groeso gan hyrwyddo'r busnesau a darparu gwasanaeth gwerthfawr i'n hymwelwyr
    - ✓ Noddi a threfnu digwyddiadau allweddol yng Nghanol y Dref, gan annog ymwelwyr a gwella delwedd ein tref
    - ✓ Cydweithio â rhanddeiliaid a gweithredu strategaethau i gynyddu apêl a niferoedd ymwelwyr Caernarfon
2. **Glân, Gwyrdd ac Eco-gyfeillgar:** creu tref fywiog, deniadol, hygyrch, a phrofiad unigryw i'n hymwelwyr.
    - ✓ Darparu cynlluniau grant bach ar gyfer busnesau, gan wella ymddangosiad yr eiddo a hyrwyddo canol tref croesawgar
    - ✓ Codi baneri uwchben llawer o fusnesau canol y dref bob gwanwyn a Choed Nadolig bach bob mis Rhagfyr
    - ✓ Cydweithio â grwpiau cymunedol, ysgolion ac eraill i ysbrydoli a hyrwyddo prosiectau gwyrdd a mentrau glanhau
3. **Man Diogel:** hyrwyddo lles, darparu mannau diogel, ac amgylchedd croesawgar i'n hymwelwyr a'n trigolion.
    - ✓ Creu a noddi rhaglenni lles a darparu gweithdai, grwpiau ffocws a digwyddiadau cymdeithasol am ddim
    - ✓ Cynnal a noddi digwyddiadau sy'n gyfeillgar i deuluoedd a gweithredu prosiectau diogel a phleserus i bawb
    - ✓ Cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru a rhanddeiliaid, gan weithredu mannau diogel a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
4. **Cryfach Gyda'n Gilydd:** darparu cymorth o safon i'n haelodau, gweithio ar y cyd â rhanddeiliaid, sicrhau cynhwysiant.
    - ✓ Cefnogi ein haelodau gyda chyfathrebu ystyrlon, cyfleoedd rhwydweithio, addasu ein gwasanaethau er lles cydweithredol
    - ✓ Dathlu digwyddiadau diwylliannol ac amrywiaeth y dref tra'n parchu gwahaniaethau diwylliannol a chymdeithasol, gan hybu cynhwysiant
    - ✓ Adeiladu partneriaethau a mentrau ar y cyd gyda'n haelodau, elusennau lleol, ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni blaenoriaethau

Gan ystyried eich adborth penodol, byddwn yn sicrhau bod y meysydd ffocws hyn yn cynnwys:

## Cefnogi pob busnes

Rydym am i bob busnes lleol gael dweud eu dweud ac elwa o fod yn rhan o'n AGB, waeth beth fo'u sector neu eu lleoliad. Mae hyn yn golygu ailasesu ble a sut rydym yn darparu ein prosiectau a'n gwasanaethau, gan sicrhau bod y busnesau ar gyrion yr ardal AGB yn cael eu cynnwys. Byddwn yn cynyddu cyfleoedd rhwydweithio ac yn annog mwy o ymgysylltu trwy gyfarfodydd anffurfiol. Gan weithio fel cydweithfa o fusnesau, gallwn ddefnyddio pŵer ein AGB i lobïo newid ac i sicrhau cyfleoedd i'n tref.

Fe wnaethoch chi ddweud wrthym yr hoffech weld cyfleoedd grant ar gyfer busnesau newydd, gan annog entrepreneuriaeth a lleihau cyfraddau’r siopau gwag. Byddwn yn lansio cynllun grant ar gyfer hyn yn y tymor newydd, os bydd y bleidlais yn llwyddiannus.

Fe wnaethoch hefyd fynegi cefnogaeth i'n syniad o gynllun Cerdyn Rhodd Caernarfon, gan annog pobl i siopa a gwario'n lleol. Rydym yn bwriadu lansio'r cynllun yn ystod 2026 os rhoddir tymor AGB newydd.

## Cryfhau partneriaethau

Dywedasoch wrthym ei bod yn hanfodol bod HWB Caernarfon yn cydweithio â'n partneriaid statudol i sicrhau bod y dref yn ddeniadol, yn lân ac yn groesawgar, felly bydd hyn yn rhan allweddol o'n hagenda. Rydym eisoes yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd a Chyngor Tref Caernarfon, gan sicrhau bod yr adnoddau yn cael eu gwneud i'r eithaf er budd ein tref a'n busnesau. Mae angen mwy o ymdrech i gadw canol y dref yn lân ac yn daclus, a byddwn yn cynyddu ein gwaith a'n cydweithrediad gyda Thîm Tacluso Cyngor Gwynedd. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd eich lefi AGB yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau ychwanegol ac ni chaiff ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau y mae'r awdurdodau eisoes wedi addo eu gwneud, sy'n cael eu hariannu trwy eich ardrethi busnes.

## Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol y dref

Fe wnaethoch chi fynegi pryderon am weithgareddau gwrthgymdeithasol mewn rhai rhannau o ganol ein tref. Mewn cydweithrediad â Heddlu Gogledd Cymru ac eraill, byddwn yn gweithredu mentrau mewn ymgais i leihau'r effaith negyddol y mae'n ei chael ar ein tref a'n busnesau. Yn ogystal â'n grantiau a'n nawdd a gynigir i drefnwyr digwyddiadau ieuenctid yn y tymor AGB presennol, byddwn yn edrych ar ariannu patrolau diogelwch ychwanegol gyda'r nos mewn ardaloedd problemus, gan gynnwys arosfannau bysiau a meysydd parcio, lle mae'r gyllideb yn caniatáu.

## Dathlu hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant unigryw ein tref, tra’n hyrwyddo ei chyfoesedd

Mae HWB Caernarfon yn gweithredu'n ddwyieithog ac ar bolisi 'Cymraeg yn gyntaf', gan flaenoriaethu ein hiaith a'n diwylliant tra'n sicrhau cynhwysiant. Byddwn yn parhau i adeiladu partneriaethau gyda grwpiau lleol, gan ymgorffori hanes Cymru, y celfyddydau, cerddoriaeth a bwyd, ac yn helpu i geisio cael cyllid ar gyfer prosiectau diwylliannol. Mae llawer ohonoch yn cytuno bod HWB Caernarfon yn gwneud gwaith da yn hyrwyddo'r dref. Byddwn yn pwyso i wneud hyd yn oed yn well wrth farchnata'r dref, gan dynnu sylw at y ffaith bod gan Gaernarfon hanes hir, yn groesawgar, yn fywiog ac yn fodern.

### Gwneud y mwyaf o incwm HWB Caernarfon

Rydym yn gwerthfawrogi'n llawn yr hinsawdd economaidd heriol a pha mor anodd yw masnachu canol trefi. Am y rheswm hwn, mae'r Bwrdd wedi penderfynu peidio â chynyddu'r gyfradd lefi ar gyfer y trydydd tymor, er gwaethaf y costau gweithredu AGB sy'n cynyddu'n barhaus.

Rydym am sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'ch arian. Bydd ein cyllidebu prosiect gofalus a'n negodi yn helpu i ddarparu gwerth am arian. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid a chyllidwyr i dynnu cyfraniadau ychwanegol, a pharhau i gynnig am gyfleoedd grant pan maent ar gael.

Er mwyn i HWB Caernarfon lwyddo a chyflawni'r cynllun busnes hwn, mae'n hanfodol bod ein haelodau yn cyfrannu drwy dalu'r ffi lefi blynyddol ar amser. Byddwn yn cynorthwyo hyn drwy gydweithredu agosach â Chyngor Gwynedd, sy'n gyfrifol am y broses o gasglu lefi, mewn ymdrech i osgoi'r anfodlonrwydd a fynegwyd gan rai o'n haelodau ynglŷn â'r broses o gasglu lefi yn ystod 2025.

### Cyfranogiad yr aelodau

**Eich AGB chi yw hwn – rydym angen a'n dymuniad yw eich bod yn cymryd rhan.**

Rydym yn croesawu eich syniadau a'ch arbenigedd ac eisiau mwy o fusnesau i weithio gyda ni.

Gallwch helpu mewn gwahanol ffyrdd – o gael trafodaethau anffurfiol i fod ar ein Bwrdd.

**Mae eich adborth eisoes wedi helpu i lunio'r cynllun busnes hwn, felly gadewch i ni gadw'r momentwm!**

# Y gost i'ch busnes

Mae HWB Caernarfon yn cael ei ariannu drwy lefi AGB blynyddol a rhagwelir y bydd yn codi tua £102,000 y flwyddyn yn ei drydydd tymor. Mae hyn yn seiliedig ar 1.5% o werth ardrethol yr holl safleoedd sydd â gwerth ardrethol o £2,000 neu fwy, oddeutu 400 o dalwyr ardrethi.

Ni fydd chwyddiant yn cael ei gymhwyso i ffioedd lefi blynyddol.

Mae'r siart isod yn dangos rhai cyfraniadau nodweddiadol yn seiliedig ar lefi o 1.5%:

| RV o eiddo | Ardoll AGB Blynyddol | Cost Wythnosol |
|---|---|---|
| £2,000 | £30.00 | £0.58 |
| £3,000 | £45.00 | £0.87 |
| £5,000 | £75.00 | £1.44 |
| £7,500 | £112.50 | £2.16 |
| £10,000 | £150.00 | £2.88 |
| £15,000 | £225.00 | £4.33 |
| £25,000 | £375.00 | £7.21 |
| £75,000 | £1,125.00 | £21.63 |
| £100,000 | £1,500.00 | £28.85 |
| £200,000 | £3,000.00 | £57.69 |
| £300,000 | £4,500.00 | £86.54 |
| £500,000 | £7,500.00 | £144.23 |

# Cyllideb Ddangosol 2026 – 2031

## Costau cyflenwi a rhedeg yr AGB

Bydd costau cyflog rheoli AGB HWB Caernarfon yn cael eu rhannu rhwng pedair thema'r prosiect yn ôl yr amser amcangyfrifedig a roddir i bob thema, gan gydnabod na ellir cyflawni unrhyw un o'r prosiectau a'r gwasanaethau heb adnoddau staffio. Mae cyfran o'r amser rheoli AGB hefyd wedi'i benodi i gyflawni a llywodraethu da HWB Caernarfon, gan gynnwys cyfathrebu, monitro perfformiad a rheoli ariannol. Bydd unrhyw gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd mis Mawrth 2031 yn cael eu cario ymlaen i'r tymor nesaf.

## Polisi newidiadau

Gellir newid prosiectau, costau, amserlenni a chyllidebau HWB Caernarfon yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, ar yr amod bod y newidiadau yn dod o fewn incwm yr AGB ac yn bodloni ei amcanion. Mae hyn yn galluogi'r AGB i weithredu'n hyblyg, gan ymateb i ofynion newidiol talwyr lefi, yr hinsawdd economaidd a chyfleoedd posibl.

Byddai unrhyw newid i'r ffin AGB ar ôl y ffin a ddangosir yn y cynllun busnes hwn, neu i'r gyfradd lefi, yn gofyn am bleidlais newid. Bydd HWB Caernarfon yn cadw at restr graddfeydd 2023 drwy gydol y tymor pum mlynedd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2031.

## Cyfraniadau ychwanegol

Mae cyfraniadau ychwanegol dangosol o £6,000 y flwyddyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb, ac maent yn seiliedig ar arian ychwanegol a gynhyrchir yn ystod y tymor presennol ar ffurf grantiau'r llywodraeth. Nid yw'r cyfraniadau ychwanegol hyn wedi'u gwarantu a gallant fod yn llai neu'n fwy na'r gyllideb amlinellol. Bydd cyfleoedd pellach i gynhyrchu arian ychwanegol gan gynnwys grantiau a nawdd yn cael eu harchwilio'n rhagweithiol.

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | Cyfanswm y Tymor |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwerth Ardrethol | £7,150,100 | £7,150,100 | £7,150,100 | £7,150,100 | £7,150,100 | £35,750,500 |
| Lefi AGB ar 1.5% RV / cyfradd casglu 95% / chwyddiant 0% | £101,889 | £101,889 | £101,889 | £101,889 | £101,889 | £509,445 |
| Cyfraniadau ychwanegol (grantiau a nawdd) | £6,000 | £6,000 | £6,000 | £6,000 | £6,000 | £30,000 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | **£107,890** | **£107,890** | **£107,890** | **£107,890** | **£107,890** | **£539,450** |
| **Gwariant** | | | | | | |
| Thema 1: Falch o Hyrwyddo | £30,150 | £30,150 | £30,150 | £30,150 | £30,150 | £150,750 |
| Thema 2: Glân, Gwyrdd ac Ecogyfeillgar | £16,500 | £16,500 | £16,500 | £16,500 | £16,500 | £82,500 |
| Thema 3: Man Diogel | £20,100 | £20,100 | £20,100 | £20,100 | £20,100 | £100,500 |
| Thema 4: Cryfach Gyda'n Gilydd | £13,640 | £13,640 | £13,640 | £13,640 | £13,640 | £68,200 |
| **Is-gyfanswm** | **£80,390** | **£80,390** | **£80,390** | **£80,390** | **£80,390** | **£401,950** |
| **Costau Cyflenwi a Rhedeg** | | | | | | |
| Costau Craidd Rheolwr AGB (sydd ddim yn gysylltiedig â phrosiectau) | £10,000 | £10,000 | £10,000 | £10,000 | £10,000 | £50,000 |
| Casglu ardoll, yswiriant, ffioedd proffesiynol, swyddfa, TG | £13,500 | £13,500 | £13,500 | £13,500 | £13,500 | £67,500 |
| Cronfeydd wrth gefn / Adnewyddu wrth gefn | £4,000 | £4,000 | £4,000 | £4,000 | £4,000 | £20,000 |
| **Is-gyfanswm** | **£27,500** | **£27,500** | **£27,500** | **£27,500** | **£27,500** | **£137,500** |

# Llywodraethu a Rheolaeth

## Y Cynigiwr AGB

Mae HWB Caernarfon yn gwmni annibynnol, nid-er-elw, cyfyngedig trwy warant a sefydlwyd yn 2010 (wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif cwmni 09959600) i oruchwylio'r AGB. Bydd HWB Caernarfon yn cyflawni'r cynllun busnes hwn pe bai'r AGB yn cael ei bleidleisio i mewn am drydydd tymor.

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn y cynigion busnes yn unol â deddfwriaeth AGB ac wedi cadarnhau ei gefnogaeth lawn i gynnal pleidlais AGB trydydd tymor ar 19 o Chwefror 2026. Hysbyswyd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol ar 17 Ebrill 2025 am fwriad HWB Caernarfon i gynnal pleidlais AGB trydydd tymor ar 19 Chwefror 2026.

Mae AGB HWB Caernarfon yn cael ei arwain gan fusnesau er lles busnesau, ac mae'n cael ei lywodraethu gan Fwrdd sy'n cynnwys talwyr lefi AGB neu gyfranwyr ariannol gwirfoddol cyfatebol, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill. Bydd yr holl aelodau yn cael eu gwahodd i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol lle bydd gweithgareddau AGB yn y gorffennol a'r dyfodol yn cael eu cyflwyno.

O dan ei Erthyglau Cymdeithasu, mae gan HWB Caernarfon swyddi ar ei Fwrdd ar gyfer o leiaf bump ac uchafswm o 15 Cyfarwyddwr sy'n cefnogi'r AGB yn wirfoddol. Mae swyddi bwrdd yn ddi-dâl, yn wirfoddol, ac yn cael eu pleidleisio trwy broses etholiadol. Ar hyn o bryd mae chwe Chyfarwyddwr ar y Bwrdd, cynrychiolwyr o'r gymuned leol a defnyddwyr gwasanaethau a gynigir gan y cwmni, gydag ystod eang o sgiliau a phrofiad. Bydd pob talwr lefi AGB yn cael ei wahodd i ddod yn aelod o'r Cwmni. Gall aelodau'r cwmni wedyn enwebu eu hunain ar gyfer swyddi Bwrdd a phleidleisio ar fusnes y cwmni.

Bydd gan Fwrdd arfaethedig HWB Caernarfon ar gyfer trydydd tymor yr AGB y strwythur canlynol:

- 2 busnes mawr
- 4 busnes bach
- 1 tirfeddiannwr
- 1 sector gwirfoddol

Yn ogystal, 2 arsylwr (heb hawl i bleidleisio):

- Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd
- Cynrychiolydd Cyngor Tref Caernarfon

Cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd yw'r holl broses o gasglu lefi AGB. Mae cyfrifon HWB Caernarfon yn cael eu paratoi'n annibynnol bob blwyddyn ac mae copïau ar gael ar gais.

Y lefi AGB yw eich buddsoddiad. Yn gyfnewid, rydych chi a'r dref yn elwa o brosiectau a gwasanaethau na fyddent fel arall yn digwydd.

Os bydd y bleidlais AGB yn llwyddiannus ar 19 Chwefror 2026, bydd y trydydd tymor yn dechrau ar 1 Ebrill 2026.

Ar hyn o bryd mae HWB Caernarfon yn cyflogi Rheolwr AGB sy'n adrodd i'r Bwrdd ac sy'n gyfrifol am gyflawni'r prosiectau yn y cynllun busnes hwn, ac aelod o staff rhan-amser sy'n gweithredu'r Ganolfan Groeso. Disgwylir y bydd y tîm yn aros yr un fath.

### Cyfathrebiadau

Hwb Caernarfon yw eich llais wrth y bwrdd. Gellir cysylltu â'n Rheolwr AGB dros y ffôn neu drwy e-bost, ac mae'n hapus i drefnu cyfarfod wyneb yn wyneb gyda chi. Mae'r Bwrdd hefyd bob amser yn agored i glywed eich adborth a'ch syniadau.

Rydym hefyd yn llygaid a chlustiau ein haelodau AGB, gan gadw ar ben y digwyddiadau wrth iddynt ddatblygu, gan eich hysbysu pan fo angen am broblemau posibl sy'n effeithio ar redeg llyfn ein tref.

Mae'n bwysig cadw pob aelod wedi’i gysylltu ac yn ymwybodol am brosiectau a gwasanaethau. Byddwn yn gwneud hyn trwy ymweliadau corfforol, cylchlythyrau a diweddariadau rheolaidd, e-byst a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Yn flynyddol, gyda'ch bil lefi AGB, byddwch yn derbyn gwybodaeth am sut mae eich lefi wedi'i wario a'r gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Bydd aelodau'n cael eu gwahodd i fynychu ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac yn cael hawl i gael eu henwebu i ddod yn Gyfarwyddwr Bwrdd yn amodol ar y lleoedd sydd ar gael.

## Beth sydd angen i chi ei wybod

### Sut ydyn ni'n mesur effaith HWB Caernarfon

Pwrpas ein AGB yw hyrwyddo'r dref a chanolbwyntio ar gamau gweithredu sydd o fudd uniongyrchol i'n cymuned fusnes leol. Mae angen i'r arian rydyn ni'n ei wario yn eich meysydd blaenoriaeth wneud gwahaniaeth gwirioneddol, gan ddangos gwerth eich buddsoddiad. Mae hyn

yn golygu mesur effaith popeth a wnawn, gan gynnwys cadw i fyny â'n perfformiad a bod yn hyblyg i sicrhau bod ein tref yn parhau i fod yn gystadleuol.

Mae ein gwefan www.hwbcaernarfon.cymru yn ffynhonnell dda o wybodaeth am ein gweithgareddau, ac fe welwch hefyd nodiadau o gyfarfodydd blaenorol y Bwrdd a chofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ogystal â'r cyfrifon blynyddol.

Yn bwysicaf oll, byddwn yn gofyn i chi sut rydyn ni'n gwneud. Bydd arolwg blynyddol o dalwyr lefi AGB yn cael ei gynnal i wahodd eich adborth ac i sicrhau bod busnesau'n teimlo eu bod yn cael gwerth am arian. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad canol tymor o sut rydym yn cyflawni'r prosiectau a nodir yn ein cynllun busnes.

## Y Bleidlais AGB

- Bydd y person, y sefydliad neu'r cwmni cofrestredig sydd wedi'i restru ar y rhestr graddio annomestig fel un sy'n gyfrifol am dalu ardrethi eiddo (y cyfeirir ato hefyd yn rheoliadau'r AGB fel hereditamentau) o fewn ffin yr AGB ar ddiwrnod yr hysbysiad o'r bleidlais (6 Ionawr 2026) yn derbyn papur pleidleisio a llythyr pleidleisio a bydd ganddo hawl i bleidleisio mewn pleidlais gyfrinachol.

Er mwyn cymeradwyo'r AGB, mae angen bodloni dau brawf:

1. Rhaid i fwy na 50% o'r rhai sy'n pleidleisio bleidleisio o blaid.
2. O'r pleidleisiau 'ia', rhaid iddynt gynrychioli mwy na 50% o gyfanswm gwerth ardrethol yr holl bleidleisiau a fwriadwyd.

O dan y ddeddfwriaeth, os bodlonir y ddau amod hyn, mae'n dod yn orfodol i bob busnes cymwys (y rhai sydd â gwerth ardrethol o £2,000 neu fwy) dalu lefi blynyddol o 1.5% o'r gwerth ardrethol bob blwyddyn am bum mlynedd tan 31 Mawrth 2031, waeth sut y gwnaethant bleidleisio.

- Er mwyn sicrhau proses deg, bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn annibynnol gan Civica ar ran Cyngor Gwynedd a bydd yn bleidlais bost gyfrinachol 28 diwrnod. Bydd gan bleidleiswyr tan 5pm ar ddiwedd y bleidlais (dydd Iau 19 Chwefror 2026) i ddychwelyd eu papur pleidleisio. Mae pleidlais drwy ddirprwy ar gael a bydd manylion yn cael eu hanfon gyda'r papurau pleidleisio.

- Os oes gan fusnes fwy nag un eiddo ardrethol, bydd yn derbyn papur pleidleisio ar gyfer pob eiddo. Mae pob papur a ddychwelir yn cyfrif fel pleidlais unigol.

- Os cymeradwyir yr AGB drwy'r ddau brawf yn cael eu bodloni, bydd yn gweithredu am bum mlynedd rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2031, gan gyflawni'r prosiectau a amlinellir yn y cynllun busnes hwn.

- Nifer yr hereditamentau sy'n atebol am yr ardoll yw 415 (ar adeg ysgrifennu ym mis Awst 2025).

- Bydd canlyniadau'r bleidlais yn cael eu cyhoeddi ar neu cyn dydd Llun 23 Chwefror 2026.

## Y Lefi AGB

- Bydd pob busnes cymwys yn ardal AGB (busnesau sydd â gwerth ardrethol o £2,000 neu fwy y flwyddyn) yn talu'r lefi AGB blynyddol, a gyfrifir ar 1.5% o'i werth ardrethol gan ddefnyddio rhestr ardrethu annomestig 2023, drwy gydol trydydd tymor yr AGB. Bydd taliad lefi AGB cyntaf trydydd tymor HWB Caernarfon yn ddyledus ar 1 Ebrill 2026 a'r lefi ddilynol yn ddyledus bob blwyddyn tan 31 Mawrth 2031. Ni fydd chwyddiant yn cael ei godi ar y lefi. Os hoffech wybod gwerth ardrethol eich eiddo, cyfeiriwch at eich bil ardrethi neu ewch i www.voa.gov.uk
- Mae casglu'r lefi AGB yn cario'r un pwysau gorfodi â chasglu ardrethi annomestig.
- O dan y rheoliadau AGB, bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gasglu'r lefi ar ran HWB Caernarfon. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu ffurfioli mewn cytundeb gweithredu y mae'r ddau barti yn ei lofnodi. Bydd yr incwm lefi yn cael ei gasglu mewn un rhandaliad.
- Bydd Cyngor Gwynedd yn trosglwyddo arian casglu lefi i HWB Caernarfon yn rheolaidd.
- Mae'r incwm hwn wedyn yn cael ei neilltuo a'i ddefnyddio i ariannu'r prosiectau a amlinellir yn y cynllun busnes hwn.

# Ffin AGB



Mae HWB Caernarfon yn gweithredu o fewn y ffin ddiffiniol a ddangosir ar y map uchod, sy'n cynnwys y strydoedd canlynol, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol:

(Sylwch nad yw'r rhestr strydoedd yn gynhwysfawr a dylid ei hystyried ochr yn ochr â'r map ffiniau sy'n dangos paramedrau'r ffin AGB. Nid oes unrhyw newid i'r ffin ar gyfer y trydydd tymor AGB - mae'n aros yr un fath ag yr oedd ar gyfer yr ail dymor).

| | |
|---|---|
| Allt Pafiliwn | Ardal bresennol |
| Banc Cei | Ardal bresennol |
| Balaclafa | Ardal bresennol |
| Stryd Bangor | Ardal bresennol |
| Y Bont Bridd | Ardal bresennol |
| Pendeitsh | Ardal bresennol |
| Allt y Castell | Ardal bresennol |
| Y Maes | Ardal bresennol |
| Stryd y Castell | Ardal bresennol |
| Tre’r Gôf | Ardal bresennol |
| Lôn yr Eglwys | Ardal bresennol |
| Stryd yr Eglwys | Ardal bresennol |
| Doc Fictoria | Ardal bresennol |
| Stryd Garnon | Ardal bresennol |
| Glan Môr / Glan Môr Uchaf (Turkey Shore & Crown Street) | Ardal bresennol |
| Tan y Bont | Ardal bresennol |
| Stryd Fawr | Ardal bresennol |
| Stryd Twll yn y Wal | Ardal bresennol |
| Lôn Crwyn | Ardal bresennol |
| Lôn Twthill | Ardal bresennol |
| Stryd y Farchnad | Ardal bresennol |
| Lôn y Felin | Ardal bresennol |
| Stryd Newydd | Ardal bresennol |
| Stryd Niwbwrch (Gwesty’r Eagles) | Ardal bresennol |

| | |
|---|---|
| Fford Y Gogledd (Rhif 14 Alexandra, gorsaf betrol Morrisons filling station, Garej Moduron Menai) | Ardal bresennol |
| Stryd Pedwar a Chwech | Ardal bresennol |
| Penrallt Uchaf | Ardal bresennol |
| Stryd y Plas | Ardal bresennol |
| Pepper Lane | Ardal bresennol |
| Penllyn | Ardal bresennol |
| Pen y Graig | Ardal bresennol |
| Pen Llyn | Ardal bresennol |
| Stryd Y Llyn | Ardal bresennol |
| Rhes Pretoria | Ardal bresennol |
| Rhes Segontiwm | Ardal bresennol |
| Stryd y Jêl | Ardal bresennol |
| Cei Llechi | Ardal bresennol |
| Stryd Capel Joppa | Ardal bresennol |
| Penrallt Isaf | Ardal bresennol |
| Lon Parc | Ardal bresennol |
| Ffordd Santes Helen | Ardal bresennol |
| Stryd y Porth Mawr | Ardal bresennol |

# Beth sy'n digwydd nesaf?

## Ionawr 2026

Bydd y rhestr bleidleisio yn cael ei baratoi i sicrhau bod y papurau pleidleisio yn cyrraedd y derbynnydd cywir.
Bydd y Cynllun Busnes terfynol yn cael ei gyhoeddi a'i gylchredeg i'r holl fusnesau sy'n talu lefi.
Bydd papurau pleidleisio AGB yn cael eu gyrru a'u derbyn cyn 23 Ionawr, a bydd y bleidlais yn dechrau (pleidlais bost 28 diwrnod).

## Chwefror 2026

Bydd y bleidlais bost yn cau ddydd Iau 19 Chwefror am 5pm. Bydd y canlyniad yn cael ei gyhoeddi ar neu erbyn dydd Llun 23 Chwefror.

## Ebrill 2026

Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd trydydd tymor AGB HWB Caernarfon yn dechrau ddydd Mercher 1 Ebrill.

🌟 **PLEIDLEISIWCH Ia!** 🌟 ✨

**i gadw HWB Caernarfon a'r cyfan a wnawn**

## Cysylltu â ni

Nigel Strain – Rheolwr HWB Caernarfon
Oriel Pendeitsh
Caernarfon
LL55 2AY
**Ffôn:** 07490 269301
**Ebost:** nigelstrain@hwbcaernarfon.cymru
**Gwefan:** www.hwbcaernarfon.cymru

Cofiwch – ar neu cyn 23 Ionawr 2026 bydd eich papurau pleidleisio yn cyrraedd.

Pleidleisiwch 'IA!' i gadw HWB Caernarfon, gan sicrhau bod ei waith da a'i chefnogaeth yn parhau, gan arwain Caernarfon i'r degawd nesaf!